



Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group



Adroddiad Blynyddol: 2025-2026

*Cymorth clinigol, gwyddonol, dadansoddol
a gweinyddol a ddarperir gan Ganolfan
Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan*



AWTTC

Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg
This document is available in English*



Rhagair	03	Optimeiddio meddyginiaethau	22
Croeso gan y Cadeirydd	03	Canllawiau ac adnoddau presgripsiynu	22
Crynodeb Cyfarwyddwyr AWTTTC	04	Diweddariadau i adnoddau	24
Datganiad Llywodraeth Cymru	05	Cydnabyddiaeth	24
Amdanom ni	06	Adolygiad Fframwaith Optimeiddio Meddyginiaethau AWMSG	24
Proffil AWMSG	06	Presgripsiynu monitro a dadansoddi	25
2025–2026 mewn rhifau	06	Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol	25
Gweithio mewn partneriaeth	07	Gweinydd ar gyfer Adrodd a Dadansoddi Gwybodaeth Presgripsiynu (SPIRA)	25
Ein partneriaid a sut y maent yn cymryd rhan	07	Mynediad at feddyginiaethau	26
Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd	10	Gwasanaeth sganio'r gorwel a rhagolygon ariannol	26
Ymgysylltu	12	Llwybrau mynediad	27
Newyddion	17	Gweithredu	28
Cael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau	17	Ymchwil a chyhoeddiadau	30
Galluogi mynediad at feddyginiaethau	18	Gweithgarwch yn ystod 2025-2026	30
Diogelwch sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau	20		
Optimeiddio gwerth	21		

Rhagair

Croeso gan y Cadeirydd

Mae'n bleser cyflwyno Adroddiad Blynyddol Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ar gyfer 2025–2026. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio sut, drwy gydweithio'n agos â Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) a'n partneriaid ledled Cymru, rydym wedi parhau i gefnogi mynediad teg at feddyginiaethau sy'n effeithiol yn glinigol ac yn gosteffeithiol, hyrwyddo defnydd mwy diogel o feddyginiaethau, a helpu'r GIG i gyflawni'r canlyniadau gorau i gleifion. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae AWMSG wedi parhau i ddarparu cyngor 'unwaith i Gymru' i Lywodraeth Cymru, wedi'i ategu gan brosesau asesu tryloyw a chadarn. Rydym hefyd wedi cryfhau'r ffordd rydym yn gweithio gyda'r bobl sy'n dibynnu ar ein cyngor a'n harweiniad: cleifion a'r cyhoedd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a'r diwydiant fferyllol. Mae eu cyfranogiad yn helpu i sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu profiad bywyd, realiti clinigol, ac ymarferoldeb gweithredu — fel bod penderfyniadau a wneir yn genedlaethol yn trosi'n fuddion go iawn yn lleol.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn tynnu sylw at weithgarwch ar draws ehangder

ein rhaglen, gan gynnwys gwaith i gefnogi optimeiddio meddyginiaethau, gwella diogelwch sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau, a galluogi rhoi triniaethau newydd ar waith mewn modd amserol. Mae hefyd yn adlewyrchu'r cyd-destun ehangach yr ydym yn gweithredu ynddo – galw cynyddol, cymhlethdod therapiwtig cynyddol, a'r angen parhaus i ddangos gwerth – gan ei gwneud hi'n bwysicach nag erioed ein bod yn defnyddio tystiolaeth, cydweithio a blaenoriaethau cyffredin i lywio penderfyniadau.

Hoffwn ddiolch i aelodau ac is-grwpiau AWMSG am eu harbenigedd a'u hymrwymiad, ac i dimau AWTTC sy'n darparu cymorth clinigol, gwyddonol, dadansoddol a gweinyddol sy'n gwneud ein gwaith yn bosibl. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i gydweithwyr ar draws GIG Cymru, Llywodraeth Cymru, a'n nifer o sefydliadau partner am eu cyfraniadau, eu her a'u cydweithrediad drwy gydol y flwyddyn.

Wrth i ni edrych ymlaen, mae AWMSG yn parhau i fod wedi ymrwymo i gefnogi dull teg, cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y claf o ymdrin â meddyginiaethau yng

Nghymru. Byddwn yn parhau i wrando, dysgu a gweithio mewn partneriaeth i wella canlyniadau a lleihau amrywiad direswm, fel y gall pobl ar draws Cymru elwa o'r feddyginiaeth gywir ar yr adeg cywir. Gobeithio y byddwch yn gweld yr adroddiad hwn yn addysgiadol ac rwy'n eich annog i ymgysylltu â'n gwaith wrth iddo ddatblygu dros y flwyddyn nesaf.



Yr Athro Iolo Doull
Cadeirydd
AWMSG



Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group

Mae pobl Cymru, yn ddigon teg, yn disgwyl cael mynediad prydlon at feddyginiaethau diogel, sy'n effeithiol yn glinigol ac yn gosteffeithiol. Mae AWTTC yn cefnogi AWMMSG drwy ddarparu ysgrifenyddiaeth wyddonol, dechnegol a gweinyddol i AWMMSG a'i is-bwyllgorau cysylltiedig. Rydym yn gweithio'n agos gydag aelodau AWMMSG i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru a GIG Cymru wybodaeth o ansawdd uchel, wedi'i hadolygu gan arbenigwyr annibynnol, i gynorthwyo eu prosesau gwneud penderfyniadau.

Y llynedd, mae AWTTC wedi croesawu nifer o gydweithwyr newydd, sydd wedi gwella ein galluedd. Mae dau gydweithiwr sy'n Fferyllwyr Ymgynghorol Cymru Gyfan yn ymuno â ni, gan ddod ag arbenigedd pwnc dwfn mewn ffarmacogenomeg a gofal iechyd cymunedol. Mae ymgorffori Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (GCFC) o fewn AWTTC yn gwella'n fawr ein gallu i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau i'r GIG a chleifion yng Nghymru.

Gwnaeth AWTTC elwa ar Raglen Fuddsoddi'r Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG) drwy wella ein galluedd o ran sganio'r gorwel, asesu meddyginiaethau,

dadansoddi data a chefnogi gweithrediad. Mae cyllid wedi'i sicrhau tan 2028-2029 i gyflawni amcanion allweddol a fydd yn sbarduno arloesedd wrth ddarparu asesiadau technoleg iechyd, cefnogi gweithrediad a gwella'r broses o gasglu data a dadansoddeg. Bydd cyflawni hyn yn ein galluogi i fesur effeithiau newidiadau a chynllunio addasiadau pellach i optimeiddio effaith meddyginiaethau yng Nghymru.

Mae ein harbenigedd wedi'i seilio ar ein rhagoriaeth ymchwil. Rydym yn cydweithio'n agos â'n cydweithwyr academiaidd ac yn y gwasanaeth iechyd i archwilio pynciau sy'n berthnasol yn glinigol a datblygu ein galluedd mewnol. Eleni rydym wedi cyhoeddi pedair erthygl a adolygwyd gan gymheiriaid mewn llenyddiaeth glinigol a gwyddonol, wedi cyflwyno mewn cynadleddau rhyngwladol ac wedi darparu cyflwyniadau gwadd ledled y DU.

Byddwn yn parhau i gymhwyso ein harbenigedd proffesiynol a datblygu ein henw da mewn dadansoddeg data i gefnogi cydweithwyr AWMMSG a'r GIG i ddarparu mynediad at feddyginiaethau o'r radd flaenaf ac optimeiddio meddyginiaethau i bobl Cymru. Yn olaf, hoffem ddiolch i'r holl staff gwyh yn AWTTC am eu penderfyniad, eu

gweledigaeth a'u harbenigedd wrth gyflawni rhaglen waith o ansawdd mor uchel dros y 12 mis diwethaf.



Yr Athro James Coulson
Cyfarwyddwr Clinigol
AWTTC

J. Coulson



Dr Andrew Champion
Cyfarwyddwr Rhaglen
AWTTC

A. R. Champion



Mae gan feddyginiaethau'r potensial i fod yn wirioneddol drawsnewidiol. Gall y feddyginiaeth iawn, a ddefnyddir yn y ffordd iawn, wella ansawdd bywydau pobl, ac mewn rhai achosion, hyd eu bywydau. Mae creu amgylchedd lle mae gan bobl fynediad prydlon a chyfartal at feddyginiaethau sy'n diwallu eu hanghenion iechyd hefyd yn annog diwydiant i fuddsoddi mewn ymchwil gyda phrifysgolion Cymru ac mewn treialon clinigol gyda'n byrddau iechyd a'n hymddiriedolaethau. Wrth wneud hynny, mae pobl yng Nghymru yn cael mynediad cynharach at feddyginiaethau newydd ac arloesol ac mae buddsoddiad yn cefnogi twf yn ein heconomi. Am y rhesymau hyn, mae sicrhau bod gan gleifion yng Nghymru fynediad at feddyginiaethau effeithiol sydd o werth profedig i'r GIG, yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

Mae adroddiad blynyddol eleni yn tynnu sylw at y gwaith da iawn y mae Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG), gyda chefnogaeth Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC), wedi'i wneud i hyrwyddo mynediad parod at feddyginiaethau arloesol, i sicrhau defnydd priodol a diogel o bob meddyginiaeth, ac i wneud y mwyaf o'r gwerth y mae'r GIG a

Chymru gyfan yn ei sicrhau o'i fuddsoddiad sylweddol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae AWMSG ac AWTTC wedi parhau i roi cyngor cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n ategu ein dull 'unwaith i Gymru' sy'n parhau i fod yn ganolog i sicrhau bod cleifion ym mhob rhan o Gymru yn cael mynediad amserol a chyson at driniaeth sy'n effeithiol yn glinigol ac yn gosteffeithiol. Er gwaethaf y galw cynyddol, y cymhlethdod therapiwtig cynyddol a'r rhagolygon ariannol heriol, mae sefydliadau'r GIG yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn pob un o'r pedwar uchelgais a'r wyth nod a ddisgrifir yn Strategaeth i Gymru 2024–2029 AWMSG.

Mae'r gwelliant amlwg ym mhob bwrdd iechyd yn erbyn Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol yn dystiolaeth o effeithiolrwydd y cyngor, yr offer a'r adnoddau y mae AWMSG wedi'u cynhyrchu yn y blynyddoedd diwethaf ac yn y blynyddoedd blaenorol. Yn bwysig, er bod y duedd o welliant wedi parhau, mae wedi bod yn bleser gweld AWMSG yn rhoi ffocws cynyddol nid yn unig ar welliant ar lefel Cymru gyfan ond hefyd ar sut mae gwelliant yn amrywio rhwng gwahanol gymunedau yng Nghymru. Rhaid

i'r broses o nodi, herio a lleihau'r amrywiad mewn perfformiad rhwng, ac o fewn byrddau iechyd, fod yn flaenoriaeth i AWMSG yn y dyfodol, ac edrychaf ymlaen at gefnogi'r Cadeirydd a'r aelodau i ehangu a datblygu eu rôl ar ran Gweinidogion Cymru, wrth ddwyn y GIG i gyfrif am welliannau ystyrlon yn y mynediad at feddyginiaethau, y defnydd ohonynt a'r gwerth sy'n deillio ohonynt i bob dinesydd yng Nghymru.

Yn olaf, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Gadeirydd ac aelodau AWMSG, ac i swyddogion AWTTC, am y cyfraniad amhrisiadwy a wnânt i gefnogi arloesedd, sicrhau diogelwch a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol y gall meddyginiaethau eu dwyn i iechyd a llesiant pobl Cymru.

Andrew Evans OBE FRCPharm
Prif Swyddog Fferyllol
Llywodraeth Cymru

Andrew Evans



Amdanom ni

Proffil AWMMSG

Ein gweledigaeth ar gyfer Cymru – “Gwella iechyd a llesiant pobl yng Nghymru drwy alluogi cleifion i gael y canlyniadau gorau o’u meddyginiaethau”

Enw: Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)

Cadeirydd: Yr Athro Iolo Doull

Wedi’i sefydlu: 2002

Rôl: Cynggori Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau strategol mewn presgripsiynu fel yr amlinellir yn [AWMSG Strategaeth AWMMSG i Gymru: 2024–2029](#).

Aelodau: Yn cynnwys meddygon, nyrsys, fferyllwyr a gweithwyr gofal iechyd eraill a all roi presgripsiynau ar gyfer meddyginiaethau, academyddion, economegwyr iechyd, cynrychiolydd o’r diwydiant fferyllol, aelodau lleyg a Chyfarwyddwr Cyllid y GIG. Gweler [Ein Pwyllgorau](#) ar wefan AWTTTC am restr o aelodau unigol.

Grwpiau ac is-grwpiau ymgynghorol:

- Grŵp Cynggori ar Ragnodi Cymru Gyfan (AWPAG)
- Panel Craffu AWMMSG
- Pwyllgor Llywio AWMMSG
- Grŵp Asesu Meddyginiaethau

- Trwyddedig Cymru’n Un (LOWMAG)
- Grŵp Asesu Meddyginiaethau Cymru’n Un (OWMAG)
 - Grŵp Cynllun Trefniadau Masnachol Cymru (CASWG)

Am ragor o wybodaeth gweler [Ein Pwyllgorau](#) ar wefan AWTTTC.

Sefydliadol: Mae Pwyllgor Llywio AWMMSG yn goruchwyllo ac yn arwain mentrau strategol, ac mae Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTTC) yn darparu cefnogaeth glinigol, wyddonol, dadansoddol a gweinyddol.

Cyfarfodydd: Cynhaliwyd 10 cyfarfod yn 2025–2026. Mae cyfarfodydd ar agor i’r cyhoedd. Mae [cofnodion cyfarfodydd blaenorol a dyddiadau’r rhai yn y dyfodol ar wefan AWTTTC](#).

Rhagor o wybodaeth:

[awttc.nhs.wales](#) (gwefan Saesneg)
[cttcg.gig.cymru](#) (gwefan Gymraeg)
[@AWTTCComms](#) (cyfrif X Saesneg)
[@AWTTCCymraeg](#) (cyfrif X Cymraeg)
[LinkedIn](#) (Saesneg a Chymraeg)


2025–2026 mewn rhifau



10 cyfarfod
AWMSG



10
o Argymhellion



4
o feddyginiaethau
trwyddedig



6
o feddyginiaethau
all-drwydded




9 cyhoeddiad
optimeiddio
meddyginiaethau




16 Dangosydd
Rhagnodi
Cenedlaethol
wedi’u monitro

Ein partneriaid a sut y maent yn cymryd rhan

Rydym yn gweithio gyda chleifion a'r cyhoedd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chynrychiolwyr y diwydiant fferyllol, yn ogystal â Llywodraeth Cymru a sefydliadau perthnasol yn y DU, i gyhoeddi argymhellion ar feddyginiaethau a chanllawiau ar optimeiddio'r defnydd o feddyginiaethau.



Ein tri phartner allweddol yw: cleifion a'r cyhoedd; gweithwyr gofal iechyd proffesiynol; a'r diwydiant fferyllol. Maent wedi'u hymgorffori ym mhob agwedd ar ein gwaith ac yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni ein hamcanion cyffredin. Mae yna lawer o ffyrdd y gallant gymryd rhan yn ein gwaith. Dyma rai enghreifftiau.



Cleifion a'r cyhoedd

- Yn ystod ein hasesiad o feddyginiaethau, [rydym yn gofyn i gleifion a'r cyhoedd am eu barn](#) ynghylch sut beth yw byw gyda'u cyflwr iechyd ac am unrhyw feddyginiaethau y maent yn eu cymryd, neu yr oeddent yn eu cymryd ar gyfer y cyflwr. Rydym yn ystyried y safbwyntiau hyn pan fyddwn yn gwneud ein hargymhelliad i Lywodraeth Cymru. Mae [asesiadau meddyginiaeth sydd ar y gweill ar hyn o bryd](#) wedi'u rhestru ar wefan AWTTTC.

- Rydym yn cynhyrchu adnoddau i gefnogi'r defnydd diogel a gorau o feddyginiaethau yn GIG Cymru. Rydym yn gofyn i gleifion a'r cyhoedd roi [sylwadau ar bob adnodd meddyginiaeth](#) a gynhyrchir. Rydym yn ystyried ac yn mynd i'r afael â phob ymateb cyn i'r adnodd gael ei gwblhau, ei gymeradwyo a'i gyhoeddi. Mae [ymgyngoriadau sydd ar agor](#) ar hyn o bryd wedi'u rhestru ar wefan AWTTTC.
- Mae [ein haelodau lleig](#) yn aelodau o'r cyhoedd ac yn aelodau pleidleisio llawn. Maent yn rhoi barn annibynnol ac yn tynnu sylw at yr hyn sy'n bwysig i gleifion, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, er mwyn helpu i lywio penderfyniadau am feddyginiaethau newydd ac adnoddau meddyginiaethau.
- Cynhelir [cyfarfodydd y Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd \(PAPIG\)](#) bedair gwaith y flwyddyn ac fe'u cefnogir gan AWTTTC. Maent yn gyfle i gleifion a'r cyhoedd glywed am ein gwaith, a darganfod sut y gallant [gymryd rhan](#).



Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

- Mae aelodau ein pwyllgor yn dwyn ynghyd amrywiaeth eang o wybodaeth arbenigol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn ystod o broffesiynau gofal iechyd ar draws holl ardaloedd Cymru. Rydym yn annog gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i [gysylltu â ni](#) os oes ganddynt ddiddordeb mewn [dod yn aelod o'r pwyllgor](#).
- Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru [gynnig adnodd optimeiddio meddyginiaethau](#) i'w ystyried drwy ein proses gymeradwyo, sy'n cynnwys ymgynghoriad agored drwy wefan AWTTTC.
- Gwahoddir gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hefyd i nodi pryd mae angen asesiad AWMSG ar gyfer meddyginiaeth. Gallant lenwi [ffurflen gais am feddyginiaethau ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol](#) neu anfon e-bost at AWTTTC yn awttc@wales.nhs.uk.
- Gallai unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio gyda chleifion chwarae rhan arwyddocaol wrth [roi cyngor arbenigol](#) i ni. Er enghraifft, rydym yn gofyn i arbenigwyr clinigol gyfrannu at broses asesu meddyginiaethau AWMSG, ac i fynychu cyfarfodydd Grŵp Asesu Meddyginiaethau Trwyddedig Cymru'n Un (LOWMAG) a Grŵp Asesu Meddyginiaethau Cymru'n Un (OWMAG) i gyfrannu at drafodaethau. Rydym hefyd yn gofyn i weithwyr gofal iechyd proffesiynol roi sylwadau ar y canllawiau presgripsiynu a'r adnoddau optimeiddio meddyginiaethau a gynhyrchir gennym. Mae [cynllun gwaith asesu AWMSG](#) a'r [ymgyngoriadau agored](#) cyfredol wedi'u rhestru ar wefan AWTTTC.
- Mae AWTTTC yn cynnal [Diwrnodau Arferion Gorau](#) lle mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn rhannu mentrau arferion gorau sy'n gysylltiedig ag optimeiddio meddyginiaethau. Mae AWTTTC hefyd yn cynnal sesiynau [Dysgu dros Ginio](#) – cyfres o ddigwyddiadau ar-lein awr o hyd sy'n ymdrin â meysydd therapiwtig, newyddion presgripsiynu cenedlaethol a diweddariadau mewn ymarfer clinigol.





Y diwydiant fferyllol

- Mae Fforwm Diwydiant AWTTTC yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr o'r diwydiant fferyllol gyfarfod yn rheolaidd ag AWTTTC i siarad am faterion sy'n ymwneud â mynediad at feddyginiaethau yng Nghymru.
- Mae tîm [sganio'r gorwel](#) AWTTTC yn casglu gwybodaeth am feddyginiaethau newydd, arwyddion (y cyflyrau y maent yn eu trin) a fformwleiddiadau newydd yn y biblinell fferyllol. [UK PharmaScan](#) yw prif ffynhonnell wybodaeth y tîm ac rydym yn annog pob cwmni i ymgysylltu ag UK PharmaScan.
- Mae'r [Tîm Mynediad at Feddyginiaethau Masnachol](#) yn cefnogi ac yn monitro gweithrediad meddyginiaethau a argymhellir gan AWMSG neu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE) pan fo'r feddyginiaeth yn gysylltiedig â threfniant




masnachol gyda GIG Cymru. Mae ymgysylltiad cynnar gan y diwydiant fferyllol yn galluogi'r tîm i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad amserol at feddyginiaethau a bod GIG Cymru yn cael gwerth am arian.

- Anogir cwmnïau i gysylltu cyn gynted â phosibl i ddweud wrthym am feddyginiaethau sydd yn yr arfaeth a rhannu gwybodaeth i gefnogi cynllunio a gweithredu meddyginiaethau ar raglen waith NICE. Yn absenoldeb canllawiau NICE, gall cwmnïau [gyflwyno meddyginiaeth i'w hystyried gan Banel Craffu AWMSG](#). Bydd Panel Craffu AWMSG yn penderfynu a yw meddyginiaeth yn bodloni meini prawf AWMSG ar gyfer asesiad gan LOWMAG neu OWMAG.
- Gall cwmnïau fferyllol gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar gyfer unrhyw adnoddau optimeiddio meddyginiaethau sydd wrthi'n cael eu datblygu. Ystyrir pob ymateb cyn i'r adnodd gael ei gwblhau, ei gymeradwyo a'i gyhoeddi. Mae [ymgynghoriadau sydd ar agor](#) ar hyn o bryd wedi'u rhestru ar wefan AWTTTC.

Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd

10 < >



**Cleifion a'r
cyhoedd**



4 cyfarfod
PAPIG



17 siaradwr



85 yn bresennol



13 o bynciau sy'n gysylltiedig
â meddyginiaethau wedi'u
trafod yn fanwl



10 asesiad
meddyginiaethau

...



9 cyflwyniad gan
sefydliadau cleifion



9 ymgynghoriad
optimeiddio
meddyginiaethau

...



20 ymateb gan
gleifion a'r cyhoedd



**Y diwydiant
fferyllo**



3 cyfarfod Fforwm
Diwydiant AWTTTC



9 ymgynghoriad
optimeiddio
meddyginiaethau wedi'u
rhannu â'r diwydiant

Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd

11 < >



Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ein pwyllgorau


17 14 16 30

AWMSG LOWMAG OWMAG AWPAG



9 ymgynghoriad optimeiddio meddyginiaethau

84 ymateb gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol




14

o arbenigwyr clinigol sy'n ymwneud ag asesiadau meddyginiaethau



1 Diwrnod Arferion Gorau



150 yn bresennol



4 gweminar Dysgu dros Ginio + 1 podlediad



556 yn bresennol



13 o bynciau wedi'u trafod



742 o wylwyr ar-lein



17 o arbenigwyr clinigol



14 o grwpiau arbenigol

yn ymwneud â datblygu adnoddau optimeiddio meddyginiaethau

Mae [gwefan AWTTC](#) a'r cyfryngau cymdeithasol yn ffyrdd pwysig o gyfathrebu â'n partneriaid, gan ledaenu'r gair am yr hyn a wnawn.



779k o
lawrlwythiadau
ffeiliau



563k o ymweliadau
â thudalennau



392 o ddilynwyr
LinkedIn



739k o
ddefnyddwyr
ar wahân



11.2k wedi gweld
postiau X

Ar ein rhan, mae AWTTC yn trefnu ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau allweddol i addysgu, cyfnewid syniadau, clywed am brofiadau personol, rhwydweithio a lledaenu ymwybyddiaeth am yr hyn a wnawn. Ceir rhestr o rai o ddigwyddiadau'r llynedd isod.




Digwyddiadau o Ebrill 2025 i Fawrth 2026

Ebrill 2025

- Cyflwynodd AWTTC dri phoster yn y 19^{eg} Gynhadledd Amddiffyn Cemegau Meddygol yn yr Almaen. Cyflwynodd yr Athro James Coulson, Cyfarwyddwr Clinigol AWTTC, ymchwil i 1) dod i gysylltiad ag asid hydrofflorig yn y gweithle; 2) defnyddio pralidoxime fel gwrthwenwyn ar gyfer gwenwyn organoffosffad; a 3) adolygiad o ymholiadau anthracis i Wasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau y DU.
- Wrth baratoi ar gyfer lansio'r Llwybr Trwyddedu a Mynediad Arloesol (ILAP) sydd wedi'i adnewyddu, cynhaliodd yr

Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) weminar i gyflwyno'r llwybr ac amlygu gwelliannau allweddol. [Roedd Dr Andrew Champion, Cyfarwyddwr Rhaglen AWTTC, ymhlith y siaradwyr allweddol](#) a ymunodd â phartneriaid ILAP eraill o'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), Consortiwm Meddyginiaethau'r Alban (SMC), GIG Lloegr (NHSE) ac MHRA.



Mai 2025

- Dychwelodd yr Uwch Wyddonydd Dr Clare Elliott, arweinydd PAPIG, a'r Uwch Fferyllydd Sabrina Rind i stiwdio Rookwood Sound yn ddiweddar i ymuno â'r cyflwynydd Wesley Pritchard. Gyda'i gilydd, fe wnaethant amlygu'r gwaith hanfodol sy'n cael ei wneud gan [PAPIG](#)

wrth gynrychioli lleisiau cleifion a'r cyhoedd.



- Cynhaliodd AW TTC sesiwn [Dysgu dros Ginio](#) gynta'r flwyddyn. Yn ogystal â thrafod amrywiaeth o ddiweddariadau therapiwtig, roedd y sesiwn awr o hyd yn ymdrin â gwenwyno propranolol ac yn edrych ar y Rhaglen Gwella Ansawdd genedlaethol ar gyfer clefyd cronig yn yr arennau. Gwyliwyd y sesiwn yn fyw gan 162 o bobl, y nifer fwyaf erioed.



- Rhoddodd staff AW TTC un sgwrs a chyflwynwyd chwe phoster yn 45^{ain} Gyngres Cymdeithas Ewropeaidd Canolfannau Gwenwynau a Thocsicolegwyr Clinigol (EAPCCT). Roedd y pynciau'n cynnwys: adolygiad o lynciadau planhigion hemlog; camddefnyddio asid ibotenig a madarch sy'n cynnwys muscimol at ddibenion hamdden; gorddosau bwriadol mewn plant; gwenwyno mewn plant ar ôl dod i gysylltiad â phryfladdwyr; goroesi ar ôl llyncu sawl meddyginiaeth gan gynnwys cenobamate; gwenwyndra glyserol; a dod i gysylltiad â lindys.

Mehefin 2025

- Cafodd AW TTC ei gydnabod yng [Ngwobrau Gwarcheidwaid Gwrthfotig 2025](#). Dathlodd yr ymgyrch gyfraniadau rhagorol o bob cwr o'r byd wrth fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR). Darparodd y digwyddiad blatfform i rannu dysgu ac arddangos ymdrechion arloesol gyda'r nod o leihau defnydd diangen o wrthfotigau. Roedd AW TTC yn falch o fod ar y rhestr fer ar gyfer dau brosiect, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i wella stiwardiaeth gwrthfotigau yng Nghymru.



- Yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) eleni, rhoddodd fferyllwyr AW TTC y wybodaeth ddiweddaraf am newyddion AW TTC, gan gynnwys ei ddatganiad newydd arfaethedig ar werthoedd ac ymddygiadau'r sefydliad. Canolbwyntiodd cyflwyniadau eraill ar hyd presgripsiynau rheolaidd gan Ganolfan Newid Ymddygiad ICF a negeseuon cyhoeddus am ymwrthedd gwrthficrobaidd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gwyliwch recordiadau o sesiynau blaenorol a manylion cyfarfodydd yn y dyfodol [yma](#).

Gorffennaf 2025

- [Roedd dros 150 o weithwyr gofal iechyd proffesiynol o bob cwr o Gymru yn bresennol yn y Diwrnod Arferion Gorau](#)

[blynyddol](#) a gynhaliwyd gan AWTTC a Chanolfan Cerdyn Melyn Cymru. Canolbwyntiodd digwyddiad eleni ar thema Diogelwch Meddyginiaethau ac roedd yn cynnwys rhaglen lawn o siaradwyr arbenigol, cystadleuaeth poster, a sesiynau grŵp, gyda'r nod o wella arferion presgripsiynu ar draws GIG Cymru. Roedd yr adborth o'r diwrnod yn hynod gadarnhaol, gyda'r cynrychiolwyr yn canmol ansawdd y siaradwyr a'r sesiynau addysgiadol a chraff.

“Mae heddiw wedi bod yn wych ac mae angen mwy o sesiynau fel hyn arnom ni. Byddaf yn ôl y flwyddyn nesaf.”



- Cynhaliwyd sesiwn Dysgu dros Ginio ar-lein boblogaidd arall awr o hyd ym mis Gorffennaf a oedd yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau gan gynnwys datgarboneiddio nwyon meddygol – prosiect ocsid nitrus, adolygiad o broses asesu meddyginiaethau AWMMSG ac ystod o ddiweddariadau therapiwtig. Gwylwch recordiadau o sesiynau blaenorol a dewch o hyd i fanylion digwyddiadau yn y dyfodol [yma](#).




Awst 2025

- Rhyddhawyd un sesiwn arbennig Dysgu dros Ginio a recordiwyd ymlaen llaw ym mis Awst i gefnogi presgripsiynwyr wrth roi meddyginiaeth gwrthfeirysol ar gyfer trin COVID-19. Cyflwynwyd y sesiwn gan Rhys Oakley, Fferylllydd Ymgynghorol, Clefydau Heintiol a gellir gwyllo'r recordiad [yma](#).

Medi 2025

- [Cyfarfu PAPIG ym mis Medi](#) gyda chyflwyniadau a thrafodaethau agored yn archwilio ffarmacogenomeg a meddyginiaethau manwl yng Nghymru, gan flaenoriaethu lleisiau pobl sydd â phrofiad bywyd mewn ymchwil i glefydau prin, a phigiadau colli pwysau a beichiogrwydd.



Hydref 2025

- Cyflwynodd y tîm Dysgu dros Ginio sesiwn a oedd yn canolbwyntio ar ofal sylfaenol mwy gwyrdd, a'r menopos a chyfnodau presgripsiynu. Cafwyd diweddariad cyflym ar newyddion therapiwtig hefyd. Gwylwch y sesiwn hon a sesiynau blaenorol, a dewch o hyd i fanylion digwyddiadau yn y dyfodol [yma](#).

Tachwedd 2025

- Mae AWTTC wrth ei fodd o fod wedi ennill y wobr gyntaf am y cyflwyniad poster gorau yng Nghynhadledd Flynyddol y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) eleni. Cafodd y poster 'Datblygu Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol 2025–2028 ar gyfer GIG Cymru: Dull dan Arweiniad Rhanddeiliaid' ei gyflwyno gan Shaila Ahmed, Uwch Fferyllydd yn AWTTC.



- Lansiodd AWTTC eu cyfres o werthoedd ac ymddygiadau. Y gwerthoedd craidd sefydliadol hyn yw'r set o foeseg ac egwyddorion sy'n llywio prosesau gwneud penderfyniadau a phrosesau'r sefydliad. Maent hefyd yn gwasanaethu

fel y sylfaen ar gyfer diwylliant y sefydliad, a'r ymddygiadau a ddisgwylir gan ei weithwyr.



Rhagfyr 2025

- Daeth nifer dda i gyfarfod PAPIG ym mis Rhagfyr gyda chyflwyniadau'n canolbwyntio ar dri maes: cymryd eich meddyginiaethau eich hun yn yr ysbyty – cydbwysu annibyniaeth â chefnogaeth staff; dysgu presgripsiynu – rhoi hyfforddion wrth y llyw; a sut i gyflwyno cyfarwyddiadau ar labeli meddyginiaeth er diogelwch cleifion.

Ionawr 2026

- Cyhoeddodd AWTTC fod rhestr bwrpasol o ffurflenni Blueteq ar gael i'w defnyddio ar draws GIG Cymru bellach yn fyw ar wefan AWTTC. Mae hyn yn nodi cam pwysig wrth gefnogi byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a chlinigwyr i

weithredu system Cyffuriau Cost Uchel (HCD) Blueteq. Bydd y rhestr yn cael ei diweddaru wrth i ffurflenni ychwanegol gael eu cymeradwyo a'u gwneud ar gael.


Chwefror 2026

- Mae AWTTC yn ymuno â'r Derbyniad Blynnyddol ym Mae Caerdydd i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Clefydau Prin. Mae AWMSG ac AWTTC yn gweithio i sicrhau bod gan bobl â chlefyd prin sy'n byw yng Nghymru yr un cyfle i gael gafael ar feddyginiaethau â chleifion eraill, a rhoddodd y digwyddiad hwn gyfle i'r tîm godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r gymuned clefydau prin.



- Yn sesiwn [Dysgu dros Ginio](#) olaf y flwyddyn, rhoddodd y Meddyg Ymgynghorol Anadlol Dr Katie Pink y wybodaeth ddiweddaraf am Ganllawiau Asthma Oedolion Cymru Gyfan, a chyflwynodd staff o Wasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau Caerdydd ganfyddiadau eu hymchwil ar risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â defnyddio systemau dosau wedi'u monitro mewn pobl hŷn. Rhoddodd Dr Tessa Lewis, Cyngorydd Meddygol i AWTTC, y wybodaeth ddiweddaraf hefyd am newyddion therapiwtig perthnasol.

“Sesiwn fer a chryno ardderchog, yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth/diweddariadau mewn amser byr. Mwy os gwelwch yn dda!”



Mawrth 2026

- Roedd cyfarfod PAPIG y Gwanwyn yn llwyddiant ysgubol arall, gyda phresenoldeb cryf a thrafodaeth ystyrlon drwyddi draw. Roedd y cyflwyniadau'n cynnwys gwybodaeth i gleifion ar amlfferylliaeth, proses genedlaethol ar gyfer cefnogi cyflwyno therapïau cymhleth yng Nghymru, a phosteri a thaflenni gwybodaeth am wrthfotigau i gleifion. Gwyliwch recordiadau o sesiynau blaenorol a manylion cyfarfodydd yn y dyfodol [yma](#).
- Mae [Rhaglen Waith AWTTC 2025–2028](#), a aeth yn fyw y mis hwn yn dilyn ei chyflwyno gychwynnol ym mis Ebrill 2025, yn amlinellu amcanion strategol sydd â'r nod o wella mynediad at feddyginiaethau, optimeiddio a defnyddio data yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn dwyn ynghyd flaenoriaethau a nodwyd gyda'n sefydliadau partner, gwaith sy'n cael ei gyflawni fel rhan o [Raglen Fuddsoddi'r Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Priso, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio \(VPAG\)](#), a llawer o'r nodau a nodwyd yn [AWMSG Strategaeth i Gymru: 2024–2029](#).

AWTTC Work Programme 2025-2028		
Objective	Impacted by VPAG?	Intended outcome
Horizon scanning and financial forecasting		
1. Undertake a mapping exercise across Wales to determine the current horizon scanning/financial forecasting landscape, identify any gaps, duplications and barriers, and scope potential solution.	✓	Understand the requirements of stakeholders to inform the development of an enhanced horizon scanning and financial forecasting service for Wales.
2. Develop an action plan based on the results of the mapping exercise to support development of the national horizon scanning and financial forecasting service for Wales.	✓	The key tasks required to support the development of the horizon scanning and financial forecasting processes will be defined and prioritised.
3. Develop horizon scanning and financial forecasting methods, processes, outputs and reporting mechanisms.	✓	Reporting using the AWTTC medicines access database will be developed and refined so that all stakeholders are provided with sufficient horizon scanning and financial forecasting information. This will assist health boards and trusts with service and budget planning and provide information on a 'Once for Wales' basis.
4. Monitor pipeline medicines.	✓	To support service planning and financial forecasting, enabling the NHS in Wales to be better prepared and provide timely access to clinically and cost-effective medicines.
Medicines access system		
5. Develop processes and new systems to address current gaps in access for Wales outside of NICE Technology Appraisal guidelines.	✓	People in Wales have timely access to medicines where there is a current clinical need (right people, right time, right medicines).
6. Input into national collaboration on medicines access.	✓	Align processes and systems and identify areas for collaboration to improve efficiency, reduce duplication and deliver patient-centred advice.
7. Deliver medicines assessments.	✓	People in Wales have timely access to medicines where there is a current clinical need.

* VPAG - Voluntary Scheme for Branded Medicines Pricing, Access, and Growth. Find out more here: [VPAG \(Wales\) Investment Programme - AWTTC.cymru/wales](#)

Objective	Impacted by VPAG?	Intended outcome
Implementation of medicines		
8. Enhance the processes and mechanisms managed by the Commercial Medicines Access Team (CMAT) to ensure that there are robust processes in place to facilitate timely access to medicines associated with a commercial arrangement. To ensure health boards and trusts in Wales can access and receive the maximum possible value for money for NICE and AWPMS approved medicines.	✓	Ensure the NHS in Wales gets the medicines for the right price so that the right people receive clinically and cost-effective treatments at the right time.
9. Implement the Blauert High-Cost Drugs (HCD) system to enhance clinical and financial governance of high-cost medicines, providing health boards and trusts in NHS Wales with a standardised process to reduce variation in access to medicines and improve access to data.	✓	Better governance and monitoring of high cost drug usage across Wales, reducing variation in prescribing across health boards and trusts and providing data to support clinical decision making, patient safety and commercial access.
10. Develop a process for supporting the planning and introduction of new medicines and monitoring the uptake of high-impact medicines, e.g. national pathways mapping of complex/rare therapies.	✓	Provide an 'All Wales' approach to the planning and introduction of AWPMS and NICE approved medicines, supporting the consistent uptake of medicines likely to have a significant impact on existing services and/or clinical pathways.
11. Supporting access to new treatment fund medicines.	✓	People (patients & health care professionals) have timely and equitable access to clinically and cost-effective medicines.
Data		
12. Collaborate with DCHW to access new data sets including those within the National Data Resource (NDR) and the Digital Medicines Transformation Hub (DMTH), which will support, safe, efficient, and effective prescribing for patients and healthcare professionals.	✓	AWTTC collaborates with DCHW and other stakeholders in providing meaningful benefits from new datasets.
13. Establish new data sets to enable identification of unmet need in prescribing.	✓	Prescribing outliers are identified for health board investigation to achieve positive change. These data will include outcomes-world evidence where possible.

* VPAG - Voluntary Scheme for Branded Medicines Pricing, Access, and Growth. Find out more here: [VPAG \(Wales\) Investment Programme - AWTTC.cymru/wales](#)

Objective	Impacted by VPAG?	Intended outcome
14. Utilise existing and new data to support decision making in medicines optimisation.	✓	Datasets are explored by AWTTC to develop beneficial analyses and visualisations and provide insights for stakeholder utilisation.
15. Produce regular and ad hoc data reports.	✓	Stakeholders have access to information when they need it.
16. Maintain data sources and SPRA.	✓	Stakeholders have access to information when they need it and SPRA remains accessible and fit for purpose.
Medicines optimisation		
17. Develop and implement a governance structure and programme of work for Your Medicines, Your Health.	✓	To support the public and HCPs in ensuring that patients in Wales take their medicines in a way that maximises their health outcomes, and that waste associated with medicines use is reduced and sustainability is improved.
18. Review and update the AWTTC Medicines Optimisation Framework.	✓	Processes for how we prioritise our work and develop each of our outputs are more transparent and continue to be fit for purpose.
19. Develop and publish the 2025-2031 set of National Prescribing Indicators.	✓	A new set of NPIs is developed that reflects the priorities of NHS Wales and continues to drive rational prescribing.
20. Deliver medicines optimisation resources.	✓	Stakeholders continue to have access to resources that meet their needs and support optimised prescribing.
Health economics		
21. Establish processes to undertake de novo health economic modelling to support AWTTC outputs.	✓	To provide a transparent, consistent and efficient approach to de novo modelling across the various AWTTC programmes of work.
22. Continue delivering health economics expertise to support value-focused decision making and priorities.	✓	Value and cost-effectiveness continue to be considered in AWTTC outputs aimed at delivering value for NHS Wales.

* VPAG - Voluntary Scheme for Branded Medicines Pricing, Access, and Growth. Find out more here: [VPAG \(Wales\) Investment Programme - AWTTC.cymru/wales](#)

Cael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau

Mae strategaeth pum mlynedd AWMSG ar gyfer 2024–2029 yn diffinio pedwar uchelgais eang y mae aelodau eisiau i'n strategaeth ganolbwyntio arnynt: cael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau; galluogi mynediad at feddyginiaethau; diogelwch sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau; a gwneud y gorau o werth. Rydym wedi defnyddio'r pedwar uchelgais hyn i gategoreiddio rhai straeon newyddion nodedig dros y flwyddyn ddiwethaf.




Un o'n uchelgeisiau yw helpu pobl yng Nghymru i gael y cyfle gorau i gyflawni'r manteision a fwrriadwyd o'r meddyginiaethau a ragnodir iddynt, a dylid

cefnogi'r claf a'i bresgripsiynydd i wireddu hynny. Lle bo'n briodol, dylai hyn gynnwys dad-bresgripsiynu meddyginiaeth pan fydd y risg yn gorbwyso'r budd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio gydag AWTTC a'n partneriaid ar amrywiaeth o brosiectau sydd wedi helpu i wireddu'r uchelgais hon.

Cyhoeddwyd Fframwaith Gofal a Rennir Cymru Gyfan a thaflenni gwybodaeth i gleifion

Nod y dogfennau hyn yw sicrhau cysondeb mewn gofal a rennir ledled Cymru o ran egwyddorion, cymhwyso trefniadau gofal a rennir sy'n cael eu datblygu a'u hadolygu, a mabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y claf tuag at ofal a rennir. Mae'r Fframwaith Gofal a Rennir yn berthnasol i gytundebau gofal a rennir rhwng gwasanaethau arbenigol (gan gynnwys gofal eilaidd neu drydyddol) a gofal sylfaenol, lle mae cyfrifoldebau dros bresgripsiynu a monitro meddyginiaethau yn cael eu rhannu'n ffurfiol o dan brotocol diffiniedig.



Cyhoeddwyd canllawiau Cymru Gyfan i gefnogi rheoli meddyginiaethau integredig mewn lleoliadau cymunedol

Datblygwyd y canllawiau hyn drwy gydweithio â phartneriaid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac maent yn amlinellu safonau ar lywodraethu cydweithredol i gefnogi rheoli meddyginiaethau diogel ac wedi'i optimeiddio, ar gyfer dull cyson a dibynadwy o reoli meddyginiaethau mewn lleoliadau cymunedol yng Nghymru. Y nod cyffredinol yw sicrhau bod pob person yn derbyn y safon uchaf o reoli meddyginiaethau wedi'i deilwra i'w hanghenion penodol.

All Wales guidance to support integrated medicines management in community settings			
Level	Core principle	Key messages	Key points
Level 1	Individuals self-administer their medicines independently	Individuals can self-administer their medicines independently	• No specific support needed for medicines management • Ongoing supervision and monitoring is not required • Individuals are assessed as capable and their medicines management is reviewed • Detailed documentation of support workers from liability • Aligns with the (HSC) (2017) (2018) (2019) (2020) (2021) (2022) (2023) (2024) (2025) (2026) (2027) (2028) (2029)
Level 2	Support workers administer medicines for individuals who require support	Support workers must fully document medicines administration, including consent and any relevant information, ensuring the individual's needs are met	• Support workers are not liable for medicines management • Support workers must fully document medicines administration, including consent and any relevant information, ensuring the individual's needs are met • Requires ongoing assessment for support workers
Level 3	Support workers administer medicines requiring advanced skills or greater complexity	Requires advanced training and competency assessment	• Requires advanced training and competency assessment • Ongoing supervision and support from qualified health professionals are necessary to ensure safe and effective medicines administration • Expectations and responsibilities should be clearly defined, and staff should not undertake activities that require specialist training and oversight required (see (2017) (2018) (2019) (2020) (2021) (2022) (2023) (2024) (2025) (2026) (2027) (2028) (2029))



Mae gennym uchelgais i alluogi mynediad at y meddyginiaethau cywir ar yr adeg cywir i bobl yng Nghymru. Mae angen sicrhau

bod meddyginiaethau sy'n glinigol ac yn gost-ffeithiol ar gael fel opsiwn i bob person sydd angen triniaeth. Dylid gwneud penderfyniadau ynghylch argaeledd meddyginiaethau ar sail 'unwaith i Gymru', pryd bynnag y bo'n briodol, er mwyn osgoi dyblygu ymdrech ar draws y gwasanaeth. Yn ystod 2025–2026, buom yn gweithio gydag AW TTC ar amrywiaeth o brosiectau i helpu i gyflawni'r uchelgais hon.

Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Priso, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG)

Mae AW TTC wedi cael blwyddyn gyffrous gyda phenodiad 14 aelod o staff newydd i gefnogi cyflwyno Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd (HTA) Buddsoddi VPAG yng Nghymru. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i:

- wella [sganio'r gorwel a rhagweld](#) cenedlaethol;
- adolygu a datblygu dulliau a phrosesau [asesu meddyginiaethau](#) i sicrhau mynediad at driniaethau sydd eu hangen yn glinigol;

- mynd i'r afael ag anghenion data i gefnogi presgripsynu effeithiol; a
- hwyluso [llywodraethiant clinigol ac ariannol effeithiol ar feddyginiaethau a gymeradwywyd gan AWMSG a NICE](#).

Mae Bwrdd Rhaglen VPAG wedi chwarae rhan allweddol wrth lunio amcanion a metrigau cyflawni'r rhaglen, ac rydym yn falch iawn o'r ffordd y mae'r gwaith wedi datblygu dros y deuddeg mis diwethaf. Mae Bwrdd y Rhaglen wedi cyfarfod dair gwaith eleni i drafod cynnydd y pedwar prosiect a chytuno ar amcanion allweddol ar gyfer 2026.

Rydym yn frwdfrydig ynglŷn â chyflawni cam nesaf y gwaith ac yn hyderus y bydd cynnydd parhaus yn cael ei wneud ar draws y prosiectau yn 2026–2027. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am Raglen HTA Buddsoddi VPAG yng Nghymru ar [wefan AW TTC](#).

Cyflwyno meddyginiaethau newydd yn y GIG yn y DU

Cynhyrchodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mewn cydweithrediad â phartneriaid system o bob cwr o'r DU, gan gynnwys AWMSG, [lwybr yn crynhoi'r](#)

[prosesau y dylai cwmnïau fferyllol eu dilyn wrth baratoi i lansio cynhyrchion newydd yn y DU](#). Mae'r llwybr yn amlinellu'r llwybrau i'r farchnad, sut mae llwybrau rheoleiddio, gwerthuso technoleg iechyd a masnachol yn cysylltu, a'r mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â chwmnïau gan gynnwys gwasanaethau cynghori cynnar.

AWTTC yn lansio cam II o System Cyffuriau Cost Uchel (HCD) Blueteq





System feddalwedd ar y we yw [Blueteq](#) sy'n cael ei gweithredu yng Nghymru i ganiatáu i'r byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau fonitro presgripsynu meddyginiaethau cost uchel a rheoli'r cymhlethdodau cynyddol sy'n gysylltiedig â'u defnydd. Roedd cam I ar gyfer meddyginiaethau a gomisiynwyd gan Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru yn unig; mae cam II yn cynnwys HCDs a ragnodir gan y saith bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth. Byddant yn nodi eu meysydd blaenoriaeth eu hunain ar gyfer gweithredu a byddant yn parhau â dull graddol nes bod yr holl feddyginiaethau cymwys wedi'u cynnwys.

Y Llwybr Trwyddedu a Mynediad Arloesol (ILAP) newydd yn croesawu cynhyrchion ymchwiliol cyntaf

Cyhoeddodd yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), ar ran Partneriaid ILAP gan gynnwys AWTTTC, fod [tri therapi posibl wedi dod y cyntaf i ymuno â chynllun newydd yn y DU](#) a gynlluniwyd i helpu meddyginiaethau newydd i gyrraedd cleifion y GIG yn gynt. ILAP yw'r unig lwybr o'r dechrau i'r diwedd yn y byd lle mae datblygwyr gofal iechyd, y rheoleiddiwr, system iechyd genedlaethol y DU gyfan, a'r cyrff asesu technoleg iechyd yn cydweithio o'r cychwyn cyntaf. Drwy roi canllawiau cynnar, cydlynol i ddatblygwyr ar ofynion diogelwch, effeithiolrwydd a gwerth ar draws y system, mae'r cynllun yn lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i driniaethau newydd symud trwy ddatblygiad, trwyddedu ac, os cânt eu cymeradwyo, i gleifion y GIG.

Cyhoeddwyd Llyfr Fformiwlâu Archebion Newydd wedi'u Llofnodi ar gyfer Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru

Er mwyn cefnogi optometryddion i reoli problemau llygaid brys fel llygaid sych, haint aciwt ac alergeddau chyflyrau llygaid, ac yna archebu'r meddyginiaethau neu'r dyfeisiau sydd eu hangen ar gyfer triniaeth o dan y GIG gan ddefnyddio archeb wedi'i lofnodi, [cynhyrchwyd fformiwlari Cymru Gyfan newydd](#). Mae'r adnodd a gymeradwywyd gan AWMMSG yn darparu gwybodaeth glinigol am baratodau llygaid, gan gynnwys arwyddion a mathau o gynhyrchion, i gefnogi optometryddion Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) i weithio'n ddiogel ac yn gyson o fewn canllawiau cenedlaethol. Mae hefyd yn cynnwys argymhellion arferion da i alluogi optometryddion i gynnig cyngor effeithiol cyn ysgrifennu archeb wedi'i lofnodi.



Diogelwch sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau

20 < >




Uchelgais arall sydd gennym yw lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau a gwella diogelwch sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau

i bobl yng Nghymru. Nod lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau y gellir ei osgoi yw lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu, cyflenwi, monitro a chymryd meddyginiaeth. Pan fydd digwyddiad niweidiol yn digwydd, dylai systemau cadarn fod ar waith ar gyfer adrodd. Rydym wedi gweithio gydag AWTTC ar ystod o brosiectau sydd wedi helpu i wireddu'r uchelgais hon.

Canllawiau ar geisiadau brys am feddyginiaeth reolaidd wedi'u cyhoeddi

Diben y ddogfen hon yw rhoi canllawiau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol tra'n asesu angen clinigol a brys ceisiadau gan gleifion am feddyginiaeth rheolaidd. Mae'r canllawiau'n berthnasol i bresgripsiynwyr mewn gwasanaethau gofal sylfaenol GIG 111 a'r Tu Allan i Oriau. Efallai y bydd gweithwyr proffesiynol eraill fel fferyllwyr cymunedol sy'n darparu gwasanaeth


Cyflenwi Meddygaeth Frys hefyd yn gweld bod y canllawiau clinigol yn ddefnyddiol i sicrhau defnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau. Darllenwch ragor [yma](#).



Cyhoeddwyd fframwaith hunanweinyddu meddyginiaethau Cymru gyfan

Mae'r fframwaith yn darparu canllawiau clir, safonol i lywio polisi lleol er mwyn sicrhau y gall cleifion sy'n rhoi eu meddyginiaethau eu hunain gartref wneud hynny'n ddiogel yn

ystod derbyniadau i'r ysbyty. Mae hefyd yn cyd-fynd ag ymdrechion i leihau datgyflyru a gafwyd yn yr ysbyty a gwella ymreolaeth cleifion fel rhan o'r Gydweithredfa Gofal Diogel. Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi gan grŵp cydweithredol amlbroffesiynol gan gynnwys gweithgor [fframwaith hunan-weinyddu meddyginiaethau Cymru Gyfan](#) ac AWTTC, gyda chefnogaeth gan Grŵp Cyngori ar Ragnodi Cymru Gyfan (AWPAG).





Un o'n huchelgeisiau yw sicrhau'r gwerth gorau posibl y mae GIG Cymru yn ei gyflawni o'i fuddsoddiadau mewn meddyginiaethau. O ystyried adnoddau cyfyngedig GIG Cymru, dylai ystyriaethau gwerth fod wrth wraidd pob penderfyniad, cyngor a chanllaw a gyhoeddir gennym. Mae 'Cymru Iachach' Llywodraeth Cymru yn diffinio gwerth uwch fel 'sicrhau gwell canlyniadau a gwell profiad i bobl am gost is.' Rydym wedi gweithio gydag AWTTC ar amrywiaeth o brosiectau i helpu i gyflawni'r uchelgais hon.

Lansiwyd is-bwyllgor AWMMSG newydd i gefnogi gweithredu trefniadau masnachol

Mae'r Tîm Mynediad at Feddyginiaethau Masnachol (CMAT) yn dîm amlsefydliadol cydweithredol sy'n cynnwys cydweithwyr o AWTTC, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) ac Uned Gwerth Meddyginiaethau. Rôl a chyfrifoldeb CMAT yw cefnogi a monitro gweithrediad meddyginiaethau a argymhellir gan AWMMSG a NICE sy'n gysylltiedig â threfniant masnachol. Mae CMAT yn prosesu nifer

gynyddol o drefniadau masnachol ac i gefnogi'r gwaith hwn, mae AWTTC wedi sefydlu [Grŵp Cynllun Trefniadau Masnachol Cymru \(CASWG\)](#), is-bwyllgor AWMMSG a fydd yn darparu mwy o gyfranogiad rhanddeiliaid, tryloywder a llywodraethiant i gymeradwyo trefniadau masnachol ar ran GIG Cymru.

Cyhoeddwyd polisi ar gyfer caffael a rheoli nwyon meddygol

Mae'r polisi hwn wedi'i anelu at gaffael, rheoli, gweinyddu a gwaredu nwyon meddygol mewn ffordd gynaliadwy er mwyn cyflawni datgarboneiddio ac mae'n cysylltu â Chynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021–2030. Mae'r polisi'n canolbwyntio ar ocsid nitrus (N₂O) a chyfuniad o 50% o ocsid nitrus a 50% o ocsigen, am fod gan y nwyon hyn yr effaith fwyaf oherwydd potensial cynhesu byd-eang uchel a defnydd cyfaint uchel. Fe'i cynlluniwyd i wella gwerth drwy atal gwastraff, gan sicrhau cyflenwi gwasanaethau darbodus a defnyddio dewisiadau amgen carbon isel.

Cyhoeddwyd dangosfwrdd SPIRA newydd sy'n monitro'r defnydd o ocsid nitrus

I gefnogi cyhoeddi'r polisi datgarboneiddio nwyon meddygol, mae [dangosfwrdd SPIRA](#) newydd wedi'i lansio i helpu i olrhain cynnydd lleihau faint o silindrau ocsid nitrus sy'n cael eu defnyddio mewn maniffoldiau. Bydd lleihau ocsid nitrus yn helpu i leihau ôl troed carbon GIG Cymru o nwyon meddygol.



Optimeiddio meddyginiaethau Canllawiau ac adnoddau presgripsiynu

Mae optimeiddio meddyginiaethau yn canolbwyntio ar gleifion a chanlyniadau yn hytrach na phrosesau a systemau. Ei nod yw cefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gynghori cleifion ar sut i gael y canlyniadau gorau o'r meddyginiaethau y maent yn eu cymryd. Gall hyn olygu rhoi'r gorau i rai meddyginiaethau neu ddechrau eraill, er mwyn sicrhau bod claf yn cymryd y feddyginiaeth fwyaf diogel sy'n trin eu cyflwr. Bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hefyd yn cynghori cleifion sut i barhau i gymryd triniaeth. Er mwyn helpu cleifion a phresgripsiynwyr i gael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau, rydym yn cyhoeddi canllawiau ac adnoddau presgripsiynu, yn ogystal ag adroddiadau ar berfformiad presgripsiynu.

Cyhoeddwyd amrywiaeth o ganllawiau ac adnoddau presgripsiynu rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026. Rhoddir dyddiadau cyhoeddi ac ymweliadau â'r wefannau (hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026) ar gyfer pob un.

Ceisiadau Brys am Feddyginiaeth Reolaidd

Cyhoeddwyd:
Mehefin '25

Ymweliadau:
>2,100

Mae'r ddogfen 'Urgent requests for repeat medication: Guidance for healthcare professionals providing NHS 111 and out-of-hours primary care services' (Saesneg yn unig), a gymeradwywyd gan AWMMSG, yn rhoi cyngor i weithwyr gofal iechyd proffesiynol wrth asesu'r angen clinigol a brys ceisiadau gan gleifion am feddyginiaeth ailadroddus. Mae'r canllawiau'n berthnasol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio fel presgripsiynwyr yn y GIG 111 a gwasanaethau gofal sylfaenol y Tu Allan i Oriau.

Fframwaith Gofal a Rennir Cymru Gyfan

Cyhoeddwyd:
Awst '25

Ymweliadau:
>3,200

Nod y ddogfen hon yw sicrhau cysondeb mewn gofal a rennir ledled Cymru o ran egwyddorion, cymhwyso datblygu ac adolygu trefniadau gofal a rennir, a mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y claf o ran gofal a rennir. Amlinellir egwyddorion gofal a rennir, a darperir fframwaith ar gyfer rhannu gofal yn ddi-dor rhwng y claf,



gwasanaethau arbenigol, a gofal sylfaenol mewn sefyllfaoedd lle mae'n briodol, yn fuddiol i'r claf, ac yn cael ei gefnogi ganddynt.

Mae'r adnodd hefyd wedi'i gefnogi gan daflenni gwybodaeth i gleifion, sy'n darparu gwybodaeth bwysig i gleifion i'w helpu i ystyried eu cytundebau gofal a rennir.

Canllawiau Cymru Gyfan i gefnogi'r broses o reoli meddyginiaethau yn integredig mewn lleoliadau cymunedol

Cyhoeddwyd:
Hydref '25

Ymweliadau:
>5,500

Datblygwyd y canllawiau hyn drwy gydweithio â phartneriaid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac maent yn amlinellu safonau ar lywodraethu cydweithredol i gefnogi rheoli meddyginiaethau diogel ac

optimaidd, ar gyfer dull cyson a dibynadwy o reoli meddyginiaethau mewn lleoliadau cymunedol yng Nghymru. Y nod cyffredinol yw sicrhau bod pob person yn derbyn y safon uchaf o reoli meddyginiaethau wedi'i deilwra i'w hanghenion penodol.

Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol – Monograffau ar gyfer triniaeth a phroffylaxis COVID-19

Cyhoeddwyd:
'25–'26

Ymweliadau:
>18,000

Datblygwyd y canllaw hwn i roi cyngor cynhwysfawr ar reoli heintiau cyffredin â chyffuriau gwrthficrobaidd mewn gofal sylfaenol, gan ystyried data lleol ar bathogen a thueddiad i wrthficrobaidd yng Nghymru. Ochr yn ochr â nifer o ddiweddariadau bach drwy gydol y flwyddyn, cafodd y canllawiau ddiweddariad sylweddol ym mis Gorffennaf 2025 gydag ychwanegu monograffau ar gyfer 'Triniaeth COVID-19' a 'Proffylaxis COVID-19'.

Monograffau Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin ar gyfer rhinitis alergaidd a phoen cefn

Cyhoeddwyd:
'25–'26

Ymweliadau:
>34,000

Nod y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin yw gwella mynediad i gleifion at gyngor cyson, sylfaen dystiolaeth, ar gyfer rheoli anhwylderau cyffredin. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys monograffau ar gyfer y 27 o anhwylderau sy'n dod o dan y gwasanaeth fferylllydd cymunedol. Ochr yn ochr â diweddariadau llai rheolaidd i fonograffau eraill, cyhoeddwyd fersiynau newydd o'r monograffau ar gyfer 'Poen cefn (i unigolion rhwng 16 oed a llai na 50 oed)' ac 'Alergedd rhinitis' ym mis Mehefin a mis Tachwedd, yn y drefn honno.

Polisi ar gyfer caffael, rheoli, gweinyddu a gwaredu nwyon meddygol yn gynaliadwy i gyflawni datgarboneiddio

Cyhoeddwyd:
Mai' 25

Ymweliadau:
>800

Mae'r ddogfen hon yn targedu caffael a rheoli nwyon meddygol. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â Chynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021–2030. Er y gellid cymhwyso'r egwyddorion a'r argymhellion i lawer o nwyon meddygol, mae'r polisi hwn yn canolbwyntio ar ocsid nitrus (N₂O) a chymysgedd o 50% o ocsid nitrus a 50% o ocsigen a adnabyddir yn gyffredin o dan yr enw masnach Entonox[®],

am fod gan y nwyon hyn yr effaith fwyaf oherwydd potensial cynhesu byd-eang uchel a defnydd cyfaint uchel.

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru – Llyfr Fformiwlâu Archebion wedi'u Llofnodi

Cyhoeddwyd:
Mawrth '26

Ymweliadau:
>900

Mae Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) yn galluogi pob optometrydd sydd wedi'i gynnwys yn Rhestr Gyfunol GIG Cymru (Rhestr Offthalmig Atodol) i gynnig profion ac archwiliadau golwg a ariennir gan y GIG ar gyfer problemau llygaid brys. Fel arfer, mae'r rhain yn cynnwys cleifion â llygaid sych, haint aciwt a chyflyrau llygaid alergaidd. O fis Ebrill 2026 ymlaen, mae optometryddion wedi gallu archebu'r meddyginiaethau neu'r dyfeisiau sydd eu hangen ar gyfer trin y cyflyrau hynny o dan y GIG gan ddefnyddio archeb wedi'i llofnodi. Yna gall fferyllfeydd cymunedol gyflenwi meddyginiaethau a ariennir gan y GIG a archebir gan optometryddion yng Nghymru ar ffurflen archebu wedi'i llofnodi safonol gan y GIG.

Mae'r ddogfen fformiwlari hon yn darparu gwybodaeth glinigol am baratodau

llygaid, gan gynnwys arwyddion a mathau o gynhyrchion, i gefnogi optometryddion WGOS i weithio'n ddiogel ac yn gyson o fewn canllawiau cenedlaethol. Mae hefyd yn cynnwys argymhellion arferion da i alluogi optometryddion i gynnig cyngor effeithiol cyn ysgrifennu archeb wedi'i lofnodi.

Fframwaith hunanweinyddu meddyginiaethau Cymru Gyfan

Cyhoeddwyd:
Mawrth '26

Ymweliadau:
>900

Mae'r fframwaith hwn yn darparu canllawiau clir, safonol i lywio polisi lleol er mwyn sicrhau y gall cleifion sy'n rhoi eu meddyginiaethau eu hunain gartref barhau i wneud hynny'n ddiogel yn ystod derbyniadau i'r ysbyty. Mae hyn yn cysylltu ag ymdrechion i leihau dadgyflyru a gafwyd yn yr ysbyty a gwella ymreolaeth cleifion fel rhan o'r Cydweithredfa Gofal Diogel.

Diweddariadau i adnoddau

Gwnaed diweddariadau bach hefyd i'r adnoddau isod rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026.

- [Dilemâu presgripsiynu: Canllaw i bresgripsiynwyr](#)
- [Canllawiau rheoli a phresgripsiynu COPD Cymru Gyfan](#)

- [Canllawiau rheoli a phresgripsiynu asthma oedolion Cymru Gyfan](#)
- [Archwiliad Cenedlaethol CEPP – Canolbwyntio ar bresgripsiynu gwrthfotigau](#)
- [Rheoli endocrin anghydweddiad rhywedd mewn oedolion](#)

Cydnabyddiaeth

Nod ein proses gydnabod yw tynnu sylw at adnoddau, mentrau neu ymgyrchoedd sydd eisoes wedi'u cydnabod neu eu cymeradwyo gan gorff neu sefydliad cenedlaethol ac sydd wedi'u gweithredu neu eu derbyn fel arferion da yng Nghymru. Rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026, fe wnaethom gydnabod y canlynol:

- Canllawiau Cymru Gyfan ar Fflysio Llinellau Gweinyddu Mewnwythiennol mewn Oedolion


Mae'r holl [adnoddau cydnabyddedig](#) i'w cael ar wefan AWTTC.

Adolygiad Fframwaith Optimeiddio Meddyginiaethau AWMMSG

Eleni, dechreuodd AWTTC adolygiad

cynhwysfawr o'r 'Fframwaith Optimeiddio Meddyginiaethau' (a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Ebrill 2021) sy'n disgrifio sut mae adnoddau optimeiddio meddyginiaethau AWMMSG yn cael eu creu, o gynnig gan randdeiliaid, i gymeradwyo, lledaenu ac adolygu.

Mae cyfnod cynnar yr adolygiad hwn wedi canolbwyntio ar waith ymgysylltu â rhanddeiliaid hanfodol er mwyn sicrhau bod yr adolygiad yn adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ochr yn ochr ag ymgysylltu wedi'i dargedu ag AWMMSG a'i is-bwyllgorau, grwpiau rhanddeiliaid gan gynnwys y Grŵp Cymheiriaid Cyfarwyddwyr Fferylliaeth ac Arweinwyr y Rhwydwaith Clinigol Cenedlaethol (Perfformiad a Gwella GIG Cymru), mae AWTTC wedi sefydlu nifer o sianeli i gasglu barn unrhyw un sydd am roi mewnbyn. Ewch i [wefan AWTTC](#) i gael rhagor o wybodaeth am yr adolygiad a'r cyfleoedd cyfredol i rannu adborth.



Presgripsiynu monitro a dadansoddi

Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol

Rydym yn monitro ac yn dadansoddi data presgripsiynu i feincnodi perfformiad a annog gwelliannau yn GIG Cymru.

Defnyddir Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol (NPIs) i amlygu blaenoriaethau therapiwtig i GIG Cymru a chymharu'r ffyrdd y mae gwahanol presgripsiynwyr a sefydliadau yn defnyddio meddyginiaethau penodol neu grwpiau o feddyginiaethau. Mae Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol yn seiliedig ar dystiolaeth, yn glir, yn hawdd eu deall ac yn caniatáu i fyrrddau iechyd, clystyrau gofal sylfaenol, practisiau meddygon teulu a phresgripsiynwyr gymharu arfer cyfredol yn erbyn safon ansawdd y cytunwyd arni.

Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol 2025–2028

Roedd yr 16 o [Ddangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol ar gyfer 2025–2028](#), a gymeradwywyd gennym ni, yn canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth (poenliniarwyr; stiwardiaeth gwrthficrobaidd; atalyddion anadlol ac SGLT-2) a gefnogir gan ddangosyddion

Meysydd â blaenoriaeth

Poenleddfwyr

Stiwardiaeth wrthficrobaidd

Cyflyrau anadlol

Atalyddion SGLT-2

Parthau cefnogol

Diogelwch

Dangosyddion rhagnodi diogel

Cyffuriau hypnotig a chyffuriau lleihau gorbryder

Cardiau Melyn

Effeithlonrwydd

Meddyginiaethau biolegol gwerth gorau

Gwerth isel ar gyfer rhagnodi

ychwanegol wedi'u grwpio o dan ddiogelwch ac effeithlonrwydd.

Mae AWTTC yn cyhoeddi [adroddiad chwarterol](#) sy'n dadansoddi perfformiad pob bwrdd iechyd yn erbyn y set gyfredol o Ddangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol.

Gweinydd ar gyfer Adrodd a Dadansoddi Gwybodaeth Presgripsiynu (SPIRA)



[Caiff SPIRA](#) ei ddiweddarau bob chwarter gyda data NPI ar gyfer byrddau iechyd, clystyrau a phractisiau meddygon teulu unigol yng Nghymru, gan roi golwg fanylach ar bresgripsiynu lleol. Mae SPIRA hefyd yn cynnwys data ychwanegol, fel dangosfwrdd datgarboneiddio anadlyddion AWTTC, amrywiaeth o ddangosfyrddau 'Effeithlonrwydd', a dangosfwrdd sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio opioidau ledled Cymru. Gall defnyddwyr ar Rwydwaith GIG Cymru gael mynediad at y dangosfyrddau rhyngweithiol hyn ar gyfer dadansoddiad cymharol o ddata presgripsiynu.


Mae dangosfyrddau SPIRA newydd a ddatblygwyd ac a wnaed ar gael yn 2025–2026 yn cynnwys:

- Dangosfwrdd ocsid nitrus
- Dadgarboneiddio anadlyddion – Maint cyfaint
- Argymhelliad 'Gwerth a Chynaliadwyedd' 2026–2027

Gwasanaeth sganio'r gorwel a rhagolygon ariannol

Mae tîm sganio'r gorwel a rhagolygon ariannol AWTTC yn cefnogi'r GIG yng Nghymru trwy ddarparu gwybodaeth glir am feddyginiaethau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg a'u heffaith debygol ar gyllidebau a chyflenwi gwasanaethau. Mae'r tîm yn nodi, monitro ac yn asesu effaith bosibl meddyginiaethau a restrir ar raglen waith y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE). Maent yn canolbwyntio ar y meddyginiaethau hynny y disgwylir iddynt gael trwydded a dod ar gael yn rheolaidd yn y DU yn y flwyddyn ariannol gyfredol neu'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r tîm yn darparu amcangyfrifon cynnar o gostau tebygol meddyginiaethau newydd, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n ddiogel gyda chydweithwyr GIG penodol yng Nghymru i gefnogi eu cynllunio ariannol.

Mae meddyginiaethau newydd yn dod yn fwy cymhleth, felly mae angen i ni ddeall pa wasanaethau fydd eu hangen i gefnogi eu defnydd. Mae cydweithio agos â sefydliadau eraill yn hanfodol i nodi'r materion sy'n benodol i'r GIG yng Nghymru. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (NWJCC),



**9 cyfarfod
gyda Grŵp
Cydweithredol
Sganio'r Gorwel
SACT**



**50 o feddyginiaethau
canser wedi'u
hadolygu a'u graddio
o ran cyflenwi
gwasanaethau ac
effaith ar y gyllideb**



**Mae'r cydweithio wedi
galluogi Gwasanaeth Genomeg
Feddygol Cymru Gyfan i
gynllunio gwasanaethau
genomig i ddiwallu anghenion
cleifion yng Nghymru.**

***Rhian White, Cyfarwyddwr
Dros Dro'r Labordy a Phennaeth
Genomeg Cancer.***



Uned Gwerth Meddyginiaethau (MVU), Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS), Rhaglen Patholeg Genedlaethol, Therapiau Datblygedig Cymru, clinigwyr a rhwydweithiau clinigol. Mae gwaith y Grŵp Cydweithredol Sganio'r Gorwel Therapiau Gwrth-ganser Systemig (SACT) yn enghraifft dda. Mae'r grŵp hwn yn cefnogi parodrwydd y system drwy asesu effaith bosibl meddyginiaethau cancer newydd cyn i NICE gyhoeddi ei argymhellion. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn nodi problemau posibl o ran cyflenwi gwasanaethau ar sail Unwaith i Gymru, gan alluogi cynllunio effeithiol ac amserol.

Mae tîm sganio'r gorwel AWTTC hefyd wedi nodi meddyginiaethau newydd gwrth-ganser a allai gael effaith sylweddol ar gyflenwi gwasanaethau. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach gyda mewnbyn gan randdeiliaid allweddol.

Cyflwynodd y tîm set o fetrigau hefyd sy'n mesur amseroldeb asesiadau effaith gwasanaeth a chyllideb, er mwyn olrhain cynnydd ar draws y rhaglen waith.

Gweler [tudalen we sganio'r gorwel AWTTC](#) am ragor o wybodaeth.


Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod gan gleifion yng Nghymru fynediad cyflym a theg at feddyginiaethau sydd wedi'u profi'n glinigol ac yn gosteffeithiol. Mae asesiad technoleg iechyd (HTA) yn gwerthuso effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd meddyginiaeth. Mae canllawiau HTA NICE yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr, ac mae AWMSG yn darparu cyngor ar feddyginiaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn rhaglen waith NICE. Mae AWTTTC yn cefnogi AWMSG i ddarparu [prosesau asesu yn seiliedig ar dystiolaeth](#).

Mae 2025–2026 yn cynrychioli'r flwyddyn lawn gyntaf o asesu meddyginiaethau ar ôl i'r prosesau gael eu [hadolygu a'u mireinio yn 2024](#). Mae ein proses asesu meddyginiaethau wedi'i diweddaru yn cefnogi dull Cymru Gyfan o gael mynediad at feddyginiaethau ac yn canolbwyntio ar ymdrechion i nodi meysydd o angen sydd heb ei ddiwallu. Caiff meddyginiaethau eu nodi i'w hasesu drwy broses sganio'r gorwel AWTTTC ac ymgysylltu â'r diwydiant, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd. Mae Panel Craffu AWMSG, a gyfansoddwyd o GIG Cymru ac sydd ag

aelodaeth lleyg, yn cynghori ar lwybr a blaenoriaeth meddyginiaethau i'w hasesu gan is-grwpiau AWMSG. Mae gan AWMSG ddau is-grŵp sy'n asesu meddyginiaethau ac yn rhoi eu hargymhellion i AWMSG: mae Grŵp Asesu Meddyginiaethau Trwyddedig Cymru'n Un (LOWMAG) yn asesu meddyginiaethau trwyddedig, ac mae Grŵp Asesu Meddyginiaethau Cymru'n Un (OWMAG) yn asesu meddyginiaethau all-drwydded a ddefnyddir (hynny yw, meddyginiaeth a ddefnyddir y tu allan i delerau ei thrwydded yn y DU).

Mae AWMSG yn chwarae rhan lywodraethu, gan sicrhau bod yr is-grwpiau'n darparu proses deg a thryloyw. Yna anfonir yr argymhellion meddyginiaeth at Lywodraeth Cymru i'w cadarnhau. Ar ôl iddynt gael eu cadarnhau gan Lywodraeth Cymru, bydd gweithredu'r argymhellion hyn ar draws GIG Cymru yn sicrhau mynediad teg a chyson at y meddyginiaethau hynny i gleifion yng Nghymru.

Mae manylion y [proses asesu ar gyfer meddyginiaethau trwyddedig ac all-drwydded](#) ar wefan AWTTTC.



19

o feddyginiaethau wedi'u hystyried gan Banel Craffu AWMSG

9

o feddyginiaeth wedi'u hasesu gan LOWMAG ac OWMAG (+1 drwy'r hen broses)



10

o argymhellion meddyginiaeth wedi eu cymeradwyo gan AWMSG


7

adolygiad o feddyginiaeth all-drwydded



Disgwylir i fyrddau iechyd sicrhau bod meddyginiaethau ar gael i'w presgripsiynu i gleifion o fewn 60 diwrnod i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) gyhoeddi Canllawiau Drafft Terfynol neu Benderfyniad Gwerthuso Terfynol, neu o fewn 60 diwrnod i Lywodraeth Cymru gadarnhau cyngor AWMSG.

Mae AW TTC yn darparu adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru ar statws fformiwlari meddyginiaethau yr ydym ni, neu NICE, yn eu hargymell i'w defnyddio o fewn GIG Cymru.




Tîm Mynediad at Feddyginiaethau Masnachol

Mae'r Tîm Mynediad at Feddyginiaethau Masnachol (CMAT) yn dîm aml-sefydliadol cydweithredol o gydweithwyr o AW TTC, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) a'r Uned Gwerth Meddyginiaethau.

Rôl CMAT yw cefnogi a monitro gweithrediad meddyginiaethau a argymhellir gan AWMSG a NICE sy'n gysylltiedig â threfniant masnachol o fewn y GIG yng Nghymru. Mae trefniant masnachol yn gwella cost-ffeithiolrwydd meddyginiaeth; gall fod yn Gynllun Mynediad i Gleifion (PAS) neu'n Gytundeb Mynediad Masnachol (CAA). Mae hyn yn sail i hanfod [Cymru Iachach](#), gan ganiatáu i gleifion gael mynediad amserol at feddyginiaethau, gan sicrhau bod y GIG yng Nghymru yn cael y gwerth mwyaf posibl am arian o ran meddyginiaethau.

Mae CMAT yn prosesu nifer gynyddol o drefniadau masnachol, a chyda chynnydd yn nifer y CAAs cymhleth sy'n dod i Gymru, mae'r broses o reoli, monitro ac adfer ad-daliadau i'r GIG yng Nghymru yn dod yn llawer mwy heriol. I gefnogi'r gwaith



hwn, [sefydlwyd Grŵp Cynllun Trefniadau Masnachol Cymru \(CASWG\)](#). Mae CASWG yn is-bwyllgor AWMSG sydd wedi cynyddu cyfranogiad rhanddeiliaid, tryloywder a llywodraethiant o amgylch cymeradwyo trefniadau masnachol ar ran GIG Cymru.

Yn ogystal â threfniadau masnachol newydd, prosesodd CMAT a CASWG nifer gynyddol o amrywiadau contract (CVAs) i gytundebau presennol. Cynhaliwyd y CVAs hyn am amryw o resymau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i; sicrhau bod telerau'r cytundeb wedi'u cynnwys yn llawn, diweddarau prisiau, cynnwys cleifion trawsffiniol GIG Cymru a newidiadau i fecanweithiau ad-dalu.

System Cyffuriau Cost Uchel Blueteq

Mae [System Gyffuriau Cost Uchel \(HCD\) Blueteq](#) yn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu presgripsiynu yn unol â chanllawiau asesu meddyginiaethau a gyhoeddwyd gan AWMSG a NICE. Bydd mabwysiadu'r system yn sicrhau ein bod yn cael y driniaeth gywir i'r bobl gywir yng Nghymru.



Eleni, drwy gyllid VPAG, ffurfiodd AW TTC dîm bach i fwrw ymlaen â'r ail gam o gyflwyno system Blueteq yng Nghymru. Mae AW TTC wedi gweithio gyda grŵp llywio Blueteq a rhwydweithiau clinigol i flaenoriaethu a chyhoeddi ffurflenni Blueteq ar gyfer rheoli pwysau, canser, arthritis gwynegol ac asthma difrifol. Nod AW TTC yw cwblhau'r holl ffurflenni blaenoriaeth hanesyddol erbyn ail chwarter 2026–2027 gan ganolbwyntio hefyd ar barodrwydd ffurflenni ar gyfer meddyginiaethau sydd newydd eu cymeradwyo. Bydd gweithredu a pharato'i'r system yn caniatáu i GIG Cymru reoli'r cymhlethdodau cynyddol sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu triniaethau cost uchel a sicrhau cysondeb ar draws Cymru yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Y dyddiad cau ar gyfer ei gyflwyno'n llawn ar draws byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yw diwedd mis Mawrth 2027.

Ionawr–Mawrth 2026



15

ymgyngoriad Cymru Gyfan



551

o ffurflenni yn cael eu datblygu



195

o ffurflenni wedi'u galluogi

Ymchwil a chyhoeddiadau

Gweithgarwch yn ystod 2025-2026


30 < >

Yn ogystal â chefnogi'r holl waith sy'n mynd drwy AWMMSG gan AWTTTC, mae [Grŵp Ymchwil](#) AWTTTC yn hwyluso ymchwil o ansawdd uchel i ddefnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau yng Nghymru. Mae'r themâu ymchwil allweddol yn cynnwys: mynediad at feddyginiaethau, optimeiddio meddyginiaethau a diogelwch meddyginiaethau.



5 erthygl a adolygwyd gan gymheiriaid wedi'u cyhoeddi

- [The role of social workers in medicines management for older adults in Wales](#)
- [GLP-1 agonist-associated presentations to unscheduled care](#)
- [Trends in tricyclic antidepressant prescribing and poisoning in England and Wales](#)
- [A 10-year retrospective review of mushroom exposures reported to the UK NPIS](#)
- [Toxicovigilance in the UK during the COVID-19 pandemic](#)



Cyflwynwyd 17 o bosteri yn y gynhadledd

Rhagnodi ac Ymchwil mewn Rheoli Meddyginiaethau 35^{ain} Cyfarfod Gwyddonol Blynnyddol, Manceinion

- [Standardising penicillin allergy de-labelling in secondary care](#)
- [Prescribing medicines with high](#)

[anticholinergic burden in Wales](#)

- [Prescribing of drugs resulting in a combined score of 3 or more on the Anticholinergic Effect on Cognition scale](#)
- [Reducing antimicrobial course duration for improved health and environmental outcomes in NHS Wales](#)

45^{fed} Gynghres Ryngwladol Cymdeithas Ewropeaidd Canolfannau Gwenwyn a Thocsicolegwyr Clinigol, Glasgow

- [A retrospective study of case reports received by UK NPIS involving exposures to caterpillars](#)
- [Recreational abuse of ibotenic acid and muscimol-containing mushrooms reported to the UK NPIS](#)
- [Intentional overdoses in children aged 10-years and younger reported to the UK NPIS](#)
- [Survival following ingestion of several medications including a fatal dose of cenobamate](#)
- [Severe paediatric poisoning following exposure to pyrethrin and cypermethrin insecticides](#)

- A retrospective review of all hemlock ingestions reported to the UK NPIS
- A case of glycerol toxicity in a child following ingestion of slush-ice drinks



Gwobrau Gwarcheidwaid Gwrthfotig, Birmingham

- Getting the label right – are you really allergic to penicillin?
- Prescribe Wisely: Adhere to recommended antimicrobial course durations


Cynhadledd Flynyddol y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS), Llundain

- Developing the 2025–2028 national prescribing indicators for NHS Wales

*Mae cyhoeddiadau cyfnodolion yn Saesneg yn unig

19^{eg} Gynhadledd Amddiffyn Cemegol Meddygol, Munich

- A 10-year retrospective study of pralidoxime use as an antidote for organophosphate poisoning reported to the UK NPIS
- Exposures to hydrofluoric acid in the workplace
- A 10-year retrospective review of anthrax enquiries to the UK NPIS



Cyhoeddwyd gan:

Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan
Canolfan Academaidd Routledge
Ysbyty Athrofaol Llandochoau
Bro Morgannwg
CF64 2XX

Ar ran Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan

Dylid cyfeirio pob ymholiad at:

Mrs Ruth Lang
Uwch Reolwr Cyswllt
E-bost: awttc@wales.nhs.uk
Rhif ffôn: 029 218 26900

Noder bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg argraffu, ond gallai newid.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf, ewch i:

awttc.nhs.wales (Gwefan Saesneg)

cttcg.gig.cymru (Gwefan Gymraeg)

[@AWTTCcomms](#) (Cyfrif X Saesneg)

[@AWTTCcymraeg](#) (Cyfrif X Cymraeg)

[LinkedIn](#) (Cymraeg a Saesneg)

Dychwelyd i ddechrau'r adroddiad